**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 15 Chwefror 2021 am 2.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | V M Evans |
| C A Holley | Y V Jardine | S M Jones |
| J W Jones | E T Kirchner | W G Lewis |
| H M Morris | G J Tanner | D W W Thomas |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet - Cefnogi Cymunedau |
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |
| Clive Lloyd | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol |
| Alyson Pugh | Aelod y Cabinet - Cefnogi Cymunedau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd y Cynghorydd Chris Holley gysylltiad personol.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel ar gofnodion y cyfarfod ar 26 Ionawr 2021 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cynigion Drafft Cyllideb

Roedd y Cynghorwyr Clive Lloyd, Elliott King, Alison Pugh a Louise Gibbard yn bresennol ynghyd â Dave Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac esboniwyd y cynigion cyllidebol arfaethedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd a Thlodi a'i Atal, gan dynnu sylw at y prif faterion ac ateb cwestiynau.

Cytunodd y panel â'r farn a'r argymhellion canlynol am y cynigion cyllidebol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Mae'r panel yn teimlo ei bod yn hanfodol bwysig ein bod yn sicrhau bod digon o arian yn cael ei glustnodi yn y gyllideb i ddarparu cymorth iechyd a lles ychwanegol i staff yn dilyn y pandemig. Mae'r panel yn awyddus i weld menter ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd o ran cymorth i staff.
- Rydym yn falch iawn o weld sefyllfa'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol eleni, gyda chynnydd yn y gyllideb gyffredinol ac ychydig iawn o ran toriadau. Fodd bynnag, mae'r panel yn ymwybodol bod llawer iawn y mae angen ei gyflawni gyda'r arian hwn.
- Mae'r panel yn pryderu mai dim ond y gyllideb net y mae'n ei gweld. Byddai'n ddefnyddiol gweld manylion y ffrydiau incwm yn ogystal â gwariant. Mae swyddogion wedi cytuno i weithio gydag Aelodau'r Cabinet i ddarparu'r wybodaeth hon.
- Hoffai'r panel gefnogi proses y gyllideb mewn unrhyw ffordd y gall ac felly mae'n bwriadu ailedrych ar y gyllideb eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn monitro cynnydd yn ofalus.

Bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid yn bresennol yn y Cabinet ar 20 Chwefror i roi barn gyfunol y paneli perfformiad craffu ac ysgrifennu llythyr at yr aelod Cabinet.

Trafodwyd y canlynol hefyd yn y cyfarfod:

- Cynnydd o £4 miliwn yng nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol eleni
- Mae llu o gynlluniau trawsnewid ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Anodd iawn cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod – bu'n rhaid gwneud nifer o dybiaethau.
- Cydnabu'r panel fod llawer o ansicrwydd megis nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn amddiffyn Gofal Cymdeithasol a chanlyniadau etholiadau'r Senedd, a gofynnwyd i ba raddau y mae'r cyngor yn dibynnu ar gyllid canolog pellach i ymdrin â'r ansicrwydd hwn. Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru, hysbyswyd bod disgwyliad rhesymol y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei glustnodi i awdurdodau lleol oherwydd y pandemig ac mae disgwyl rhyddhad graddedig dros y flwyddyn sydd i ddod.
- Mae Aelodau'r Cabinet yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch swyddogion wedi clywed straeon emosiynol unigol gan staff. Awgrymodd y panel y dylid cyflwyno'r rhain i'r Cyngor Llawn.
- Mae'r berthynas â'r Trydydd Sector wedi bod yn anhygoel yn ystod y pandemig.

- Mae gan y cyngor wasanaeth cwnsela mewnol sydd ar gael i'r holl staff. Mae angen hyrwyddo hwn yn fwy.
- Cadarnhaodd swyddogion fod gweithio gyda phartneriaid yn ystod y pandemig wedi bod yn hanfodol ac yn gam ymlaen i'r cyngor. Eleni, a dros y flwyddyn nesaf bydd y cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cyfuno cyllid yn fwy effeithiol, ac mae rhai wedi'u cynnwys mewn tybiaethau cynllunio ar gyfer eleni.
- Mae angen i baneli ystyried cynnwys mwy o graffu ar Dlodi ac Atal mewn cynlluniau gwaith, gan ei fod yn rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn hyn.
- Gofynnodd y panel am gael gweld disgrifiad swydd ar gyfer swydd y Pennaeth Gwasanaeth integredig.

Camau gweithredu:

- Rhannu'r disgrifiad swydd ar gyfer Pennaeth Gwasanaeth integredig gyda'r panel.

5 **Y diweddaraf am Reolaeth Pandemig COVID-19**

Daeth Dave Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran pandemig COVID-19.

Pwyntiau i'w trafod:

- Yn ddiweddar, cyflwynodd Penaethiaid Gwasanaeth ddiweddariad cyffredinol yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn.
- Yn ystod y pythefnos diwethaf, gwelwyd rhywfaint o sefydlogi ar draws y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n ymddangos ei fod yn gysylltiedig â gostyngiad parhaus mewn cyfraddau heintio. Mae wedi cymryd peth amser i gael effaith ar ein gwasanaethau.
- Mae Gofal Cartref wedi bod yn gweithredu gyda 50% o'r gweithlu. Mae hyn o ganlyniad i 20% yn absennol, felly mae cynnydd mawr yn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r holl wasanaethau Iechyd a Gofal yn gweld y cynnydd hwn yn nifer y staff sy'n bresennol.
- Mae breuder o hyd ynghylch cartrefi gofal ond ar hyn o bryd dim ond nifer bach o gartrefi sy'n ansefydlog. Mae'r darlun yn gwella, yn enwedig yn ystod y pythefnos diwethaf.
- Mae'r offeryn uwchgyfeirio i fonitro straen wedi bod ar y lefel uchaf (coch) ers mis Hydref. Yn ystod y pythefnos diwethaf symudodd i ambr. Mae hon yn garreg filltir ond nid yw'n golygu y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd yn llai prysur. Yn hytrach na rheoli gwaith brys, bydd yn symud i waith mwy cynlluniedig.
- Brechiadau – brechwyd y rhan fwyaf o bobl hŷn mewn cartrefi gofal, staff cartrefi gofal a staff gofal rheng flaen. Mae mecanweithiau ar waith i sicrhau bod staff newydd a phreswylwyr cartrefi gofal newydd hefyd yn cael eu brechu.
- Mae'r panel yn pryderu am bobl ag anableddau dysgu yn cael y brechlyn. Wedi'i hysbysu nid yw'n sefyllfa syml. Disgwylir y bydd nifer o unigolion wedi

bodloni'r meini prawf ar gyfer un o'r pedwar prif grŵp blaenoriaeth. I'r rhai nad ydynt, disgwylir y bydd y mwyafrif yn bodloni meini prawf ar gyfer grŵp chwech. Gofynnodd y cyfarwyddwr am eglurhad rhanbarthol bod y rhain i gyd yn cael eu nodi.

- Mae'r panel yn bryderus am adroddiadau sy'n nodi bod pobl ag anableddau dysgu yn aml yn destun gorchmynion 'peidiwch â dadebru'. Esboniwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â'r Bwrdd Iechyd wedi edrych ar y trefniadau yn ein rhanbarth ym mis Mai 2020. Ar y pryd nid oedd unrhyw un o'r trefniadau hyn ar waith. Wedi hynny, ailedrychodd y Bwrdd Diogelu ar hyn, ac ar y pwynt hwnnw nid oedd un o'r trefniadau ar waith. Bydd y cyfarwyddwr yn egluro hyn eto gyda'r Bwrdd Diogelu i sicrhau nad oes dim wedi'i anwybyddu.
- Gofynnodd Aelodau'r Panel i Aelodau'r Cabinet a'r Cyfarwyddwr fynegi unwaith eto eu gwerthfawrogiad i'r staff.

## 6 Er gwybodaeth

Amserlenni'r Rhaglen Waith 2020/21 – Bwriadu dychwelyd i gyfarfodydd ar wahân ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd o fis Mawrth 2021. Dilynir yr amserlenni a drefnwyd, oni bai fod aelodau/swyddogion y Cabinet yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw faterion.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm